

# YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: MAE'N EFFEITHIO AR BAWB - AFLONYDDU RHYWIOL RHWNG CYFOEDION YMHLITH DYSGWYR

## Gweinidog y Gymraeg ac Addysg; Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Medi 2022

---

Mae'r profiadau sy'n cael eu rhannu ar *Everyone's Invited* a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn adroddiad Estyn yn anodd iawn eu darllen; mae'n anodd derbyn y gwirionedd bod hyn yn brofiad bywyd i rai o'n plant a'n pobl ifanc.

Mae dyletswydd arnom i wrando ac, yn bwysicach fyth, i weithredu er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc dyfu heb syniadau niweidiol a chyfyngol ynghylch rolau rhywedd, pŵer a rheolaeth, a'u grymuso i dynnu sylw at ymddygiad annerbyniol.

Rhaid i ni weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w haddysgu am bwysigrwydd cydberthynas ddiogel, cyfartal ac iach; a'r ffaith fod ymddygiad niweidiol yn anghywir bob amser. Mae hefyd yn bwysig gweithio gydag oedolion i'w cefnogi i arddangos ymddygiad priodol a chynnal hawliau plant a phobl ifanc i gydraddoldeb, gwybodaeth a diogelwch.

Er bod gan leoliadau addysg rôl bwysig, rwy'n cydnabod bod hyn hefyd yn wir am yr oedolion a'r sefydliadau eraill sy'n effeithio ar fywydau dysgwyr. Rwyf hefyd yn cydnabod bod angen grymuso plant a phobl ifanc i leisio eu barn a dyna pam rwy'n croesawu'n benodol yr argymhellion sy'n ymwneud â gwrandao ar lais y plentyn, er enghraifft drwy grwpiau cynghori pobl ifanc.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad. Bydd yr adroddiad a'r argymhellion yn gyfraniad gwerthfawr i'n gwaith ar y mater hwn ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y cynllun gweithredu aml-asiantaeth ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ac Estyn fabwysiadu/parhau i ddefnyddio'r diffiniad o aflonyddu rhywiol a ddefnyddir gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon', gan gynnwys yr enghreifftiau penodol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion y defnyddiodd Estyn yn ei waith gyda disgyblion. *Tudalen 25*

### Ymateb: Derbyn

Mae'r cynllun gweithredu aml-asiantaeth sy'n cael ei ddatblygu yn mabwysiadu'r diffiniad hwn a dyma fydd y diffiniad a ddefnyddir wrth gomisiynu unrhyw ymchwil neu adolygiadau pellach yn y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o bobl ifanc ledled Cymru i gyd-gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. *Tudalen 25*

### **Ymateb: Derbyn**

Mae sicrhau bod ein gwaith yn berthnasol ac yn diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc yn hollbwysig. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol ar sefydlu hyn, gan sicrhau'r cysylltiad gorau posibl gyda grwpiau a rhwydweithiau presennol lle bo hynny'n briodol ac yn werthfawr.

Rydym yn cydnabod rôl ganolog yr elfen ar-lein mewn aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a amlygwyd yn adroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' gan Estyn. Mae'n hanfodol sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc wrth wraidd ein hymateb, ac fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu eleni byddwn yn sefydlu panel cyngori plant a phobl ifanc ar gadernid digidol. Bydd gwahoddiad i aelodau'r panel rannu eu profiadau ar-lein a rhoi barn a sylwadau a fydd yn cyfrannu at gyfeiriad ein gwaith.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, wedi'i chyd-gynllunio â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc, yn targedu dysgwyr ledled Cymru (gweler Argymhelliad 2), i wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag aflonyddu rhywiol. *Tudalen 25*

### **Ymateb: Derbyn**

Rydym yn deall pwysigrwydd cyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi datblygu cynnwys clir a syml mewn fformatau priodol, yn fwyaf diweddar mewn perthynas â chyflwyno'r [Cwricwlwm i Gymru newydd](#) ac addysgu [Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#) yn y cwricwlwm newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc a'n rhanddeiliaid i ddatblygu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan sicrhau bod yr holl negeseuon / cynnwys gweledol yn cael eu profi gyda phlant a phobl ifanc. Byddwn hefyd yn ystyried canfyddiadau ymchwil diweddar a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ar draws Cymru ar y ffordd yr hoffent i Lywodraeth Cymru gyfathrebu â hwy.

Gan gydnabod pwysigrwydd agweddau iach a pharchus ar-lein, rydym wedi cydweithio â Chymdeithas Bêl-droed Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd codi llais yn erbyn aflonyddu rhywiol ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffilm '**Codi Llais: Aflonyddu Rhywiol Ar-lein**'. Mae'r ffilm yn cynnwys sgysiau agored rhwng pêl-droedwyr rhyngwladol Cymru Joe Allen, Lily Woodham, Esther Morgan a Joe Morrell, ac yn grymuso pobl ifanc i ddeall, herio ac adrodd am ymddygiad rhywiol amhriodol ar-lein mewn ffordd ddiogel.

Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid ac arbenigwyr i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn.

**Goblygiadau Ariannol** - Oes. Byddai costau ar gyfer datblygu ymgyrchoedd a phrofi negeseuon gyda phlant a phobl ifanc. Gan ddibynnu ar gwmpas y gwaith, byddai angen i'r gyllideb gychwynnol fod yn £40,000 a byddai'n cael ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith plant oed ysgol gynradd, gan fanteisio ar arbenigedd ac arweiniad gan elusennau plant, academyddion a Chomisiynydd Plant Cymru fel y bo'n briodol. *Tudalen 38*

### **Ymateb: Derbyn**

Byddai'n fuddiol cael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant o fwlio ar sail rhyw neu aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau cynradd, a byddai gwrando ar blant yn rhan hanfodol o unrhyw adolygiad i'r maes hwn. Fodd bynnag, rhaid i gyfranogiad plant mewn unrhyw ddysgu neu drafodaeth ar themâu o'r natur hwn fod yn briodol yn ddatblygiadol a dylai pynciau trafod fod yn gysylltiedig â phrofiadau a dealltwriaeth plant eu hunain. Byddwn felly'n bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol i bennu cwmpas yr adolygiad a rhoi manylion pellach i'r pwyllgor maes o law.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiweddarau ei chanllawiau statudol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data gan ysgolion ar aflonyddu rhywiol yn benodol bob mis, yn dadansoddi'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac yn adrodd ar eu canfyddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylid gwneud y canlynol o ran y data:

- eu casglu ar sail y diffiniad o aflonyddu rhywiol a fabwysiadwyd gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021; a'u
- dadansoddi yn ôl naw nodwedd warchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010 i gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. *Tudalen 49*

### **Ymateb: Derbyn**

Bydd diweddiariad i'r canllawiau gwrth-fwlio presennol, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn yr hydref, ond mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei datblygu a'i diweddarau. Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud yn glir ein bod yn disgwyl i'r ysgolion a'r awdurdodau lleol gasglu data ar bob math o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, mae'r data sy'n cael eu casglu ar draws Cymru ar hyn o bryd yn anghyson.

Fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei gwmpasu a'i gyflawni i gasglu data ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried sut mae data'n cael eu casglu ar lefel awdurdod lleol a sut mae'r data hwnnw'n cael ei adrodd.

Mewn egwyddor, rydym yn derbyn y dylai'r data:

- gael eu casglu ar sail y diffiniad o aflonyddu rhywiol a gafodd ei fabwysiadu gan Estyn yn ei adroddiad yn 2021;
- gael eu dosbarthu yn ôl naw nodwedd warchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010 i gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu dyletswyddau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Yn y cyfamser byddwn yn sicrhau bod y diffiniad y cytunwyd arno o aflonyddu rhywiol yn cael ei ymgorffori o fewn y canllawiau diwygiedig, a hefyd yn ymrwymo i ystyried gosod gofyniad ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddadansoddi ac adrodd ar ddata ar aflonyddu rhywiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 6.** Fel rhan o'i fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau ysgol arferol, rhaid i Estyn gynnwys, erbyn mis Ionawr 2023 fan bellaf, ystyriaeth o ddulliau ysgolion o gadw cofnodion o achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn benodol, sut mae ysgolion yn archwilio'r data hyn i nodi tueddiadau a phatrymau, ac i ba raddau y mae'r data hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau yn yr ysgol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol, ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn casglu data ac yn gweithredu ar y data hyn. *Tudalen 49*

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Estyn yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae diogelu dysgwyr yn parhau i fod yn ffocws pwysig yn arolygiadau Estyn. Er enghraifft, o fewn y maes 'gofal, cymorth ac arweiniad' mae arolygwyr yn gwerthuso ac yn adrodd ar ba mor dda y mae ysgolion yn creu diwylliant o ddiogelu i helpu i ddiogelu dysgwyr. Mae arolygwyr hefyd yn ystyried pa mor dda mae ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn gwneud y canlynol:

- ymateb, cofnodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau honedig yn ymwneud â bwlio, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig; bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â rhagfarn, boed gan staff neu gan gyd-ddisgyblion, gan gynnwys atgyfeirio ac adrodd lle bo hynny'n briodol;
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion (yn unol â'u cam datblygu) o ymddygiadau niweidiol neu anniogel yn emosiynol, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, bwlio ac eithafiaeth;
- cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio a chamfanteisio;

- defnyddio ei drefniadau i hyrwyddo a chefnogi diwylliant gwrth-fwlio a dull cadarnhaol o reoli ymddygiad disgyblion, gan gynnwys defnyddio gwaharddiadau yn briodol; a
- defnyddio cofnodion i wella ansawdd y ddarpariaeth

Cafodd y mater o ba mor dda mae ysgolion yn cofnodi ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol gan gyfoedion ei ystyried yn fanwl yn adroddiad thematig Estyn, 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon'. Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor effeithiol yw'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i staff gofnodi pryderon a chatau sy'n cael eu cymryd, a pha mor dda y maent yn defnyddio systemau monitro a barn rhanddeiliaid i werthuso ansawdd eu gwaith ac i gynllunio ar gyfer gwella. Un o'r argymhellion ar gyfer ysgolion yw:

*'Gwella'r ffordd maen nhw'n cofnodi, categorio a dadansoddi achosion o aflonyddu a bwlio. Dylai cofnodion gynnwys manylion am y math o achosion, a'u natur, yr effaith ar y dioddefwr a chatau gweithredu priodol i ymateb i gyflawnwyr a dioddefwyr, fel ei gilydd. Dylai arweinwyr sicrhau eu bod yn adolygu cofnodion yn rheolaidd, ac yn gwerthuso effaith eu gweithredoedd ar les disgyblion.'*

Argymhellodd Estyn hefyd y dylai awdurdodau lleol wella eu cofnodion o ddigwyddiadau ac fe awgrymodd y dylent:

*'Weithio gydag ysgolion i gasglu, categorio a dadansoddi'r holl ddata ar fwlio ac aflonyddu yn gywir ac yn gynhwysfawr. Yn ychwanegol, cynorthwyo ysgolion i ddadansoddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd i nodi tueddiadau a rhoi trefniadau adferol ar waith.'*

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw adolygiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach ac ysgolion cynradd yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion a cholegau yn casglu, yn categorio a dadansoddi data ar aflonyddu rhywiol i nodi tueddiadau a datblygu ymyriadau yn yr ysgol/ coleg. *Tudalen 50*

### **Ymateb: Derbyn**

O ran adolygiad thematig presennol Estyn o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn addysg bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei chynnwys.

Yn yr un modd, byddwn hefyd yn gofyn i unrhyw adolygiadau/ymchwil yn yr ysgolion cynradd yn y dyfodol ystyried pa mor effeithiol yw'r broses o gasglu a dadansoddi data.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o

gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu am achosion sylfaenol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion – fel portreadau afiach o berthnasoedd ac ymddygiadau rhywiol ar draws cymdeithas sy'n cael eu gwaethygu gan bornograffi, y cyfryngau cymdeithasol, platfformau gemau ar-lein ac eraill – fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol cyfredol a'r cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol. *Tudalen 58*

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r byd o'n cwmpas yn esblygu'n gyflym ac yn sylweddol. Fel cymdeithas rydym yn dod yn fwy ymwybodol byth o newid mewn strwythurau a chydberthnasau teuluol; newidiadau i arferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn perthynas â rhyw, rhywedd a rhywioldeb; datblygiadau mewn technoleg gan gynnwys dylanwad cynyddol y cyfryngau cymdeithasol a mwy o ddefnydd o gyfathrebu a dyfeisiau digidol; newid deddfau a hawliau ynghylch cydberthynas, rhyw, rhywedd a rhywioldeb.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnig cefnogaeth bwysig er mwyn galluogi dysgwyr i ddelio â'r newidiadau hyn. Drwy ddeall sut y caiff cydberthnasau eu meithrin, eu datblygu a'u cynnal, caiff plant a phobl ifanc gyfle i fagu sgiliau ac agweddau a fydd o ddefnydd iddynt yn eu cydberthnasau eu hunain drwy gydol eu bywydau. Gall y rhain gynnwys cydberthnasau â theulu a ffrindiau, yn ogystal â chydberthnasau proffesiynol, rhamantaidd a rhywiol. Mae dysgu am gydberthynas a rhywioldeb yn helpu pobl ifanc i feithrin yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei feddwl ac yn ei deimlo, ac i ddelio'n effeithiol â dylanwadau sy'n newid yn gyflym. Mae angen cefnogi dysgwyr i ymateb i'r dylanwadau hyn ac i deimlo, lle y bo'n briodol, fod yr adnoddau ganddynt i herio stereoteipiau a chanfyddiadau niweidiol a gofyn am help a chefnogaeth.

Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol, ar adeg sy'n briodol yn ddatblygiadol, yn cynnwys dysgu'r canlynol:

***“Dealltwriaeth o'r effeithiau sy'n gysylltiedig â deunydd rhywiol a chydberthnasau rhywiol ar-lein, gan gynnwys y goblygiadau moesegol a chyfreithiol.” ac “ Ymwybyddiaeth o'r modd y mae deunydd a chyfryngau rhywiol, yn aml yn cynrychioli rhywedd, gweithgarwch rhywiol, ymddangosiad corfforol a chydberthnasau mewn ffyrdd afrealistig a niweidiol.”***

Drwy ardal 'Cadw'n Ddiogel ar-lein' Hwb, rydym yn darparu amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau i gefnogi ysgolion i addysgu dysgwyr ar ymddygiad ystyriol a pharchus ar-lein.

Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid arbenigol fel **Childnet International** i gyhoeddi pecynnau cymorth sy'n briodol i oedran ar gyfer ymarferwyr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar-lein mewn ysgolion a grymuso dysgwyr i ofyn

am help os oes ei angen arnynt. Mae'r pecynnau cymorth **'Dim ond jôc? 'a 'Codi llaw, codi llais'** yn cynnwys cyfres o gynlluniau gwersi a gweithgareddau sy'n mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar-lein mewn ffordd sy'n briodol i'r oedran ac yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau ar-lein annerbyniol i'w hatal rhag cael eu normaleiddio.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru drin aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod a sicrhau ei bod yn blaenoriaethu ei hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac yn dyrannu adnoddau ar ei gyfer yn briodol. *Tudalen 65*

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cyfeirio'n benodol at grŵp o ddeg ffynhonnell deuluol o adfyd a thrawma yn ystod plentyndod (h.y. digwyddiadau lle gallai rhieni fod â rhywfaint o reolaeth), sydd wedi bod yn destun ymchwil helaeth ers dros 25 mlynedd. Mae astudiaethau o bedwar ban byd, gan gynnwys y rhai a gynhaliwyd yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi canfod cysylltiad cryf yn gyson rhwng y deg profiad hwn a gwaeth canlyniadau iechyd a lles gydol oes yr unigolyn. Fodd bynnag, mynegwyd amheuan bod canolbwyntio ar y deg profiad hwn yn unig yn anwybyddu bodolaeth ac effaith ystod ehangach o adfyd plentyndod, gan gynnwys digwyddiadau ac amgylchiadau tu hwnt i reolaeth rhieni. Mae hyn yn cynnwys anghydraddoldebau strwythurol a chymdeithasol fel tlodi a gwahaniaethu o bob math. Roedd hwn yn fater a gafodd ei nodi yn ystod adolygiad polisi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Llywodraeth Cymru, gafodd ei gynnal yn 2020. Un o brif argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru gymryd safbwynt mwy cyfannol wrth fynd i'r afael ag adfyd a thrawma yn ystod plentyndod ac ymestyn cyrhaeddiad y polisi y tu hwnt i'r deg profiad niweidiol, i gynnwys ffynonellau eraill o adfyd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Bydd y cynllun yn cael ei adeiladu ar sylfaen dystiolaeth y Profiadau ond bydd yn cydnabod ffynonellau eraill o adfyd plentyndod sydd hefyd yn atal plant rhag cael y dechrau gorau posib mewn bywyd a'r cyfle i gyflawni eu potensial. Byddai profiadau fel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael eu cynnwys yn y diffiniad ehangach hwn o adfyd plentyndod, ochr yn ochr â materion fel bwlio, hiliaeth, anghenion dysgu ychwanegol a salwch cronig a phrofedigaeth.

Mae hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi ei gynnig i bob ysgol yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad ac adnewyddu'r deunyddiau hyfforddi presennol yn sgil y newidiadau arfaethedig i bolisi Llywodraeth Cymru ar hyn a'r fframwaith ymarfer seiliedig ar drawma a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r fframwaith wedi mabwysiadu dull cyfannol wrth edrych ar ffynonellau trawma ac adfyd, nid dim ond y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr

bresennol o ddeg Profiad. Bydd cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi'r hydref hwn.

## **Goblygiadau Ariannol – Amherthnasol**

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyngori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal adolygiad o'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gyda'r bwriad o wneud argymhellion i ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd ac amseroldeb y cymorth hwnnw. *Tudalen 66*

### **Ymateb: Derbyn**

Mae ystyried lefel ac effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc yn bwysig o ran helpu i ddylunio a llywio ymyriadau yn y dyfodol, ac mae gennym ffynonellau data eisoes y gallwn dynnu arnynt. Er enghraifft, mae adolygiad thematig Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn darparu cyfoeth o ddata am brofiadau pobl ifanc, a chwestiynau a gweithgareddau sy'n ymwneud â syniadau pobl ifanc ynghylch y ffordd orau i leoliadau ymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'i atal. Mae canfyddiadau gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor â phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed hefyd yn darparu data gwerthfawr.

Yn hytrach na darparu adolygiad untro, bydd y gwaith ymgysylltu a fydd yn cael ei wneud wrth ddiweddarau'r canllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb, a datblygu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn rhoi cyfle i ystyried y gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd wedi profi aflonyddu rhywiol gan gyfoedion.

Mae hefyd yn bwysig ystyried ffactorau eraill, ac o'r herwydd bydd angen i ni sicrhau bod unrhyw argymhellion dilynol yn rhoi sylw i brofiadau a chefnidir byw dysgwyr. Bydd angen i ni felly alinio ein gwaith â'r cynllun gweithredu LHDTTC+, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Goblygiadau Ariannol - Dim.** Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 11.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion a cholegau yn creu diwylliant lle y mae aflonyddu rhywiol yn annerbyniol, bod adroddiadau o aflonyddu rhywiol yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod yr ymateb iddynt yn brydlon a chyson. *Tudalen 98*

### **Ymateb: Derbyn**

Canfu adroddiad Estyn, 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon: profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng



Nghymru’ fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fwy cyffredin ar-lein, a'r tu allan i'r ysgol, nag yn yr ysgol.

Er ei fod yn cydnabod bod hwn yn fater cymdeithasol ehangach, rydym yn cydnabod bod creu ethos a diwylliant o hawliau, parch a thegwch mewn ysgolion yn allweddol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'i effaith ar blant a phobl ifanc. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu Dull Ysgol Gyfan o Ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn nodi canllawiau i ysgolion er mwyn creu'r diwylliant hwn ym mhob lleoliad addysg, a bydd y rhain yn mynd ymhellach na'r gwaith o addysgu am gydberthynas a rhywioldeb yn yr ystafell ddosbarth. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023.

Bydd y Dull Ysgol Gyfan hwn hefyd yn cysylltu â'n canllawiau gwrth-fwlio statudol, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb', sy'n cwmpasu aflonyddu rhywiol.

Er mwyn sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn sefydlu diwylliant lle mae aflonyddu rhywiol ar-lein yn cael ei gydnabod fel rhywbeth annerbyniol a lle eir i'r afael ag ef yn briodol, byddwn yn rhoi cyfleoedd hyfforddi i bob ymarferydd addysg ac aelod o staff ysgol. Bwriad yr hyfforddiant a fydd ar gael o hydref 2022 ymlaen yw cefnogi'r holl staff i ddeall, atal, a chael yr hyder i ymateb i ddigwyddiadau yn effeithiol.

Nod y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft a gyhoeddwyd yn 2021, a'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ diwygiedig sydd ar y gweill, yw mynd ati, drwy gamau gweithredu pendant, i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag aflonyddu a thrais corfforol neu rywiol, yn ogystal â throseddau casineb yn erbyn pobl LHDTTC+ – mae'r olaf yn parhau i godi, yn fwyaf arbennig yn erbyn pobl draws.<sup>1</sup>

Bydd y negeseuon hyn hefyd yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 12.** Mae'n rhaid i Estyn gynnwys ystyriaeth benodol yn ei fframwaith arolygu ar gyfer arolygiadau arferol o ysgolion o'r modd y mae ysgolion a cholegau yn ymateb i ddysgwyr sydd wedi adrodd am aflonyddu rhywiol neu wedi'i brofi, ac yn eu cefnogi, ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad unigolion sydd wedi cyflawni'r aflonyddu rhywiol. Rhaid i ddull o'r fath beidio â chosbi nac adlewyrchu'n wael ar ysgolion dim ond oherwydd bod ganddynt achosion o aflonyddu rhywiol, ond yn hytrach ganolbwyntio ar ba mor dda y mae ysgolion yn ymdrin ag achosion ac yn cefnogi disgyblion. *Tudalen 98*

## Ymateb: Derbyn

<sup>1</sup> Mae ffigurau troseddau casineb ar gael ar-lein yn: [Hate crime, England and Wales, 2017 to 2018 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2017-to-2018); [Hate crime, England and Wales, 2018 to 2019 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2018-to-2019); [Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020)

Mae Estyn yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Estyn yn cydnabod bod rôl bwysig gan ysgolion wrth ddelio â phroblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac yn cytuno gyda'r adroddiad nad cyfrifoldeb ysgolion yn unig yw delio â'r mater. Yn adroddiad thematig Estyn, tynnwyd sylw at y ffaith bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fater cymdeithasol, a bod rôl bwysig gan rieni yn ogystal ag asiantaethau allanol perthnasol i gefnogi ysgolion i addysgu pobl ifanc am y mater hwn. Mae Estyn wedi diwygio'u canllawiau arolygu o dan y maes 'Gofal, Cymorth ac Arweiniad' er mwyn sicrhau bod arolygwyr yn rhoi sylw i ba mor dda y mae ysgol neu Uned Cyfeirio Disgyblion:

- yn ystyried ac yn darparu cefnogaeth o ran iechyd a lles corfforol a meddyliol disgyblion
- yn helpu disgyblion i ddeall materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd fel parch, empathi, dewrder a thosturi
- yn meithrin gwerthoedd cyffredin, megis gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd
- yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau eraill, yn lleol ac fel aelodau o fyd amrywiol, ac yn hybu hawliau dynol
- yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau'r disgyblion
- yn hybu egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg.

Bydd yr arolygwyr yn parhau i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol fewnol i drafod sut i gynnwys gweithgareddau penodol i'w galluogi i werthuso ymhellach pa mor dda y mae ysgolion yn cofnodi ac yn ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol, a pha mor dda y maent yn mynd i'r afael ag ymddygiad drwgweithredwyr. Er y bydd arolygwyr yn ystyried yr agweddau hyn, dim ond yr eithriadau y byddant yn adrodd arnynt, os oes arfer arbennig o gryf neu wan.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gael i ysgolion er mwyn i bob aelod o staff ysgol gael hyfforddiant ar adnabod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ymateb iddo ac adrodd arno. Dylai'r cyllid hwnnw gynnwys darpariaeth i ysgolion wneud trefniadau cyflenwi ar gyfer athrawon sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth, os oes angen. *Tudalen 99*

### **Ymateb: Derbyd**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dysgu proffesiynol mewn perthynas â phob agwedd ar y cwricwlwm sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae ysgolion eisoes yn cael grantiau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol, ac yn cael arweiniad mewn perthynas â sut y gallant fuddsoddi mewn dysgu proffesiynol a sut y gallant ddefnyddio'r grantiau i dalu athrawon cyflenwi pan fydd yr athrawon arferol yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Yn y pen draw, mater i Benaethiaid yw penderfyniadau am ddysgu proffesiynol mewn ymateb i anghenion eu dysgwyr a'u hymarferwyr, er y bydd pob ysgol yn

cydnabod y gofynion dysgu proffesiynol a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd a dull ysgol gyfan o ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. O fis Medi 2022 ymlaen, byddwn yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol ar gyfer y dysgu proffesiynol sydd ei angen ar ymarferwyr er mwyn darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a materion yn y maes hwnnw, gan gynnwys aflonyddu rhywiol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr ag Estyn, academyddion perthnasol, a'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2) i gasglu a choladu enghreifftiau o addysg rhyw a pherthnasoedd y mae dysgwyr yn eu hystyried yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, gyda'r bwriad o greu cronfa o adnoddau ar gyfer ysgolion a cholegau i hwyluso rhannu arfer da ledled Cymru. Lle y bo'n briodol ac yn bosibl, rhaid i'r rhain, ochr yn ochr â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, lywio darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd i ddysgwyr hŷn nad yw eu grwpiau blwyddyn yn dod dan y Cwricwlwm i Gymru. *Tudalen 100*

#### **Ymateb: Derbyn**

Bydd is-adran y Cwricwlwm yn gweithio gydag ymarferwyr, partneriaid a rhanddeiliaid (gan gynnwys y rhai a nodir uchod) i adolygu adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a nodi adnoddau effeithiol sy'n gydnaws â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, i'w rhannu'n genedlaethol ar Hwb.

Er nad oes cwricwlwm sydd wedi'i safoni o fewn addysg bellach, byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i goladu a rhannu arferion gorau ar gyfer colegau.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol a/neu ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion bolisïau clir ar ddefnydd derbyniol gan ddysgwyr o ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, bod y polisïau hynny'n cael eu cyfathrebu'n dda i ddysgwyr, staff a rhieni, a'u bod yn cael eu gorfodi'n gyson gan staff yr ysgol. *Tudalen 100*

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion wedi'i gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch [Rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth: canllawiau ar gyfer ysgolion uwchradd](#). Mae'r canllawiau hyn yn dyddio'n ôl i 2012 ac mae pob maes technoleg wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bydd fy swyddogion yn ystyried newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i'r canllawiau hyn

ochr yn ochr â [pholisi presenoldeb Cymru gyfan](#) a chanllawiau [Gwahardd o'r ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion](#).

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau adolygiad 2019 a gynhaliwyd i raglen yr heddlu mewn ysgolion Cymru. *Tudalen 101*

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi darparu canfyddiadau'r adolygiad o Raglen Ysgolion Heddlu Cymru i'r Pwyllgor, adolygiad a gynhaliwyd yn 2019. Deallwn mai'r Pwyllgor fydd yn cyhoeddi'r rhain.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 17.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i greu a chynnal cronfeydd data o sefydliadau y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ysgolion a cholegau a allai eu cynorthwyo yn eu hymateb i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. *Tudalen 101*

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Grŵp Diogelu Plant mewn Addysg yn rhwydwaith o weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ar draws Cymru sy'n diogelu plant mewn addysg, sy'n cyfrannu at ddatblygu polisi ac arferion diogelu effeithiol mewn gwasanaethau addysg. Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp i drafod ystod o faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch plant, o fewn addysg ac ar sail aml-asiantaeth, a darparu cydgefngogaeth a rhannu arferion da. Rydym yn cynnig gweithio gyda'r Grŵp i lunio'r gronfa ddata hon.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 18.** Fel rhan o'i gwaith ehangach i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion, rhaid i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Pobl Ifanc (gweler Argymhelliad 2), gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth sy'n targedu rhieni a theuluoedd er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan gynnwys sut a phryd y caiff ei gyflawni ac effaith aflonyddu rhywiol ar bobl ifanc;
- helpu rhieni a theuluoedd i siarad â'u plant a'u cefnogi, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol gan eu plant, os oes angen; a
- gwella dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn cael mynediad at gynnwys/platfformau ar-lein amhriodol, y cyfyngiadau oedran sy'n gysylltiedig â'r platfformau hynny, a pha gamau y gall rhieni eu cymryd i gyfyngu ar fynediad ar-lein eu plant. *Tudalen 102*

## Ymateb: Derbyn

Rydym yn deall pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr ac rydym, dros nifer o flynyddoedd, wedi datblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn targedu rhieni/gofalwyr ar ystod eang o bynciau ym maes addysg, yn fwyaf diweddar mewn perthynas ag addysgu [Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#) yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Byddwn yn edrych ar sut y gallwn ddefnyddio [ymgyrch 'Dim Esgus'](#) i ddatblygu negeseuon ar gyfer rhieni/gofalwyr ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan ystyried gwersi a ddysgwyr o ymgyrchoedd blaenorol i rieni a gweithgarwch sydd eisoes yn digwydd ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Byddwn yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w haddysgu ar bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach; a bod ymddygiad niweidiol yn anghywir bob amser. Rhaid inni roi'r cyfle i blant a phobl ifanc yng Nghymru dyfu heb syniadau niweidiol a chyfyngol ynghylch rolau'r rhywiau, pŵer a rheolaeth, gan roi'r sgiliau iddynt herio ymddygiad annerbyniol.

Rhaid i ni hefyd weithio gydag oedolion i'w cefnogi i fodelu ymddygiad priodol a chryfhau hawliau plant a phobl ifanc i gydraddoldeb, gwybodaeth a diogelwch.

Rydym yn cydnabod, er bod gan leoliadau addysgol rôl bwysig, fod rôl hefyd gan yr oedolion a'r sefydliadau eraill sy'n rhan o fywydau dysgwyr. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i rymuso pob dysgwr, waeth beth fo'u hoedran, i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol.

Roedd canfyddiadau Estyn yn cadarnhau bod plant a phobl ifanc yn troi'n fwy at y we am gymorth ac arweiniad yn hytrach na siarad gyda rhieni neu oedolion eraill.

Rydym yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar-lein a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr drwy ardal [Cadw'n ddiogel ar-lein](#) Hwb. Fel rhan o ardal ['problemau a phryderon ar-lein'](#) ar Hwb sydd wedi'i chydlynio gyda phlant a phobl ifanc, gallant gael cyngor i ddatblygu eu dealltwriaeth o aflonyddu rhywiol ar-lein.

Gan gydnabod y rôl bwysig y mae rhieni a gofalwyr yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag ymddygiad plant a phobl ifanc ar-lein, mae'r canllawiau ['Bydd wybodus'](#) ar gadw'n ddiogel ar-lein yn rhoi gwybodaeth i rieni a gofalwyr am yr 'apiau', y rhwydweithiau cymdeithasol a'r gemau diweddaraf a mwyaf poblogaidd ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau yn rhoi gwybodaeth i rieni a gofalwyr o ran sut mae'r apiau hyn yn cael eu defnyddio, yn tynnu sylw at risgiau a phryderon sy'n ymwneud â'r apiau, ac yn rhoi cyngor ac awgrymiadau ar eu haddasrwydd i blant a phobl ifanc.

Yn ogystal, byddwn yn datblygu ein hadnoddau ymhellach ar gyfer teuluoedd gan ganolbwyntio ar gefnogi gwell cydweithrediad a chyfathrebu rhwng ysgolion, dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael â mater aflonyddu rhywiol ar-lein.

**Goblygiadau Ariannol** – Oes. Byddai costau ar gyfer datblygu ymgyrchoedd a phrofi negeseuon gyda phlant a phobl ifanc. Gan ddibynnu ar gwmpas y gwaith, byddai angen i'r gyllideb gychwynnol fod yn £40,000 a byddai'n cael ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau traws cenedlaethol statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol erbyn Ionawr 2023 fan bellaf. *Tudalen 103*

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ganllawiau i ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc draws. Bydd hyn yn rhan o arweiniad ehangach ar ddull ysgol gyfan o ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Er ein bod yn cydnabod y brys o ran cyhoeddi canllawiau i ysgolion, mae'r rhain yn ganllawiau statudol a bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus felly, ac ymgysylltu'n helaeth â phlant, pobl ifanc ac ymarferwyr addysg. Rydym yn anelu at gyhoeddi'r canllawiau yn y gwanwyn 2023.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 20.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydnabod effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddiogelwch a llesiant dysgwyr benywaidd, a bod yn rhaid cynnwys gwaith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysgol ac o'u cwmpas mewn unrhyw ffrwd waith yn y dyfodol sy'n deillio o'r strategaeth honno. *Tudalen 103*

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod angen bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ac wedi ei gynnwys yn y Glasbrint ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Un o amcanion y strategaeth yw cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu fel rhan o ddull gweithredu'r Glasbrint, sy'n cynnwys gweithgor ar gyfer materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Bydd y grŵp hwn yn dod â sefydliadau datganoledig ac annatganoledig ynghyd yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector arbenigol i benderfynu ar y blaenoriaethau perthnasol ac i gynnal y ffocws ar gyflawni dros blant a phobl ifanc sy'n dioddef trais a cham-drin, gan gynnwys aflonyddu rhywiol gan gyfoedion. Bydd y gweithgor hwn yn bwrw ymlaen â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Cafodd y strategaeth ei datblygu ar y cyd â phartneriaid, a chafodd ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar ein rhan gan sefydliadau partner, gan gynnwys rhai a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Ar sail yr ymgynghori hwn y lluniwyd fersiwn derfynol y strategaeth a thynnodd sylw at yr angen am ffrwd waith plant a phobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 21.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r cynllun gweithredu LHDTTC+ erbyn hydref 2022 fan bellaf. Rhaid i'r cynllun gweithredu gydnabod maint ac effaith y broblem aflonyddu rhywiol ar ddysgwyr LHDTTC+, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion ac eraill i fynd i'r afael â hi. *Tudalen 103*

### **Ymateb: Derbyn**

Mae disgwyl i'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ diwygiedig gael ei gyhoeddi erbyn diwedd hydref 2022, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Hannah Blythyn AS yn ei Datganiad Llafar ar 21 Mehefin 2022, "Pride, a'r Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu LHDTTC+"<sup>2</sup>. Fodd bynnag, wrth i ni gwblhau fersiwn ddiwygiedig y Cynllun Gweithredu, mae Swyddogion Polisi LHDTTC+ a'r rheini sy'n gyfrifol am y camau gweithredu eisoes yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r camau yn y cynllun gweithredu drafft a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Mae adran benodol ar "Addysg", gan gynnwys cwricwlwm cynhwysol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chanllawiau ar unigolion trawsryweddol i ysgolion; ond hefyd adrannau ar droseddau bwlio a chasineb, a'r camau penodol rydyn ni am eu cymryd a'n hamcanion i fynd i'r afael â'r materion hynny.

**Goblygiadau Ariannol - Dim.** Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 22.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen yn gyflym â'i gwaith i gyhoeddi cynllun gweithredu amlasiantaethol i fynd i'r afael â phroblem aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, wedi'i lywio gan adroddiad Estyn ac yn unol â gwaith perthnasol arall sy'n mynd rhagddo ar draws y llywodraeth. *Tudalen 104*

### **Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi sefydlu grŵp amlasiantaethol i gydlunio'r cynllun gweithredu yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn yr hydref. Mae argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddefnyddiol o ran llywio'r ffocws, a chânt eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu fel y bo'n briodol.

<sup>2</sup> [Datganiad Llafar: Pride, a'r Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ \(21 Mehefin 2022\) | LLYW. CYMRU](#)

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 23.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022, ac yna bob chwe mis wedi hynny, ynghylch niferoedd a chyfrannau'r awdurdodau lleol ac ysgolion sydd ag arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle. *Tudalen 107*

#### **Ymateb: Derbyn**

Yn y gorffennol mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth gan awdurdodau lleol am niferoedd yr arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd yna o fewn awdurdodau lleol ac ysgolion - roedd y wybodaeth hon yn anghyson iawn, a dywedodd rhai fod ganddynt gynlluniau i sicrhau bod arweinwyr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu lle erbyn Medi 2022.

Bydd swyddogion yn ceisio diweddarau'r wybodaeth hon a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ym mis Medi 2022.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r Senedd graffu ar unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol, os gwneir diwygiadau i'r Bil hwnnw sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. *Tudalen 118*

#### **Ymateb: Derbynn mewn egwyddor**

Mae Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU yn ceisio sefydlu trefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal niwed i unigolion.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU cyn ac ar ôl cyflwyno'r Bil ar 17 Mawrth 2022. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cynnwys trafodaethau mewn perthynas â datblygu'r Bil yn ogystal ag ymgynghori ynghylch troseddau blaenoriaeth i'w cynnwys.

Yn dilyn cyhoeddi'r Bil drafft ym mis Mai 2021, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch eithrio sefydliadau addysg a darparwyr gofal plant Cymru ym mharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 y Bil.

Ar 30 Mawrth gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd mewn cysylltiad â Chymal 175(5) o'r Bil fel



y'i cyflwynwyd sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio rhestr o ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru (Rhan 2 o Atodlen 1) a fydd wedi'u heithrio rhag eu rheoleiddio o dan y Bil.

Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion cyfatebol Llywodraeth y DU i fonitro gwelliannau a gyflwynir i'r Bil yn ystod ei daith drwy Senedd y DU. Os gwneir diwygiadau i'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol a bydd yn ymdrechu i ganiatáu digon o amser i wneud y gwaith craffu. Bydd hyn yn ddibynnol ar amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Caiff arian unrhyw gostau ychwanegol ei dynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Jeremy Miles AS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**Jane Hutt AS**  
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol